Ôl-ddyledion y dreth gyngor

Beth os ydw i ar ei hôl hi gyda fy nhaliadau

Os ydych ar ei hôl hi gyda'ch taliadau treth gyngor, bydd angen i chi gysylltu â'ch cyngor lleol i geisio gwneud trefniadau i ad-dalu'r ôl-ddyledion. Fel arfer bydd disgwyl i chi dalu eich ôl-ddyledion o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol, sy'n gorffen ar 31 Mawrth. Os na allwch fforddio hyn, cyfrifwch faint allwch ei fforddio a dywedwch wrth y cyngor. Efallai y byddwch yn gallu trefnu cyfnod ad-dalu hirach os oes gennych incwm isel neu amgylchiadau arbennig, er enghraifft, os ydych ar lai o incwm am gyfnod oherwydd salwch. Bydd angen i chi dalu ychydig o'r ôl-ddyledion ar ben eich taliad treth gyngor misol arferol.

Gwiriwch fod eich bil treth gyngor yn gywir

Yn dibynnu ar eich sefyllfa, efallai bod gennych yr hawl i gael **disgownt** neu ostyngiad yn eich Treth Gyngor. Os ydych yn byw ar eich pen eich hun neu'n hollol gyfrifol am y dreth gyngor, dylech gael disgownt.

Efallai y byddwch yn medru hawlio **Ad-daliad Ail Oedolyn** os oes rhaid i chi dalu Treth Gyngor ac os ydych yn byw gyda rhywun arall, heblaw am eich partner. Rhaid bod y person arall yn 18 neu'n hŷn, ddim yn talu rhent, ddim yn gyfrifol am dalu Treth Gyngor, ac ar incwm sy'n is na lefel penodol. Os yw eich incwm yn is na lefel penodol, efallai gallwch hawlio **Budd-dal y Dreth Gyngor** yn lle. Pan ydych yn hawlio, dylai'r cyngor gyfrifo pa fudd-dal fyddai'n rhoi'r cymorth gorau i chi gyda'ch treth gyngor. Gallwch gael ffurflen hawlio ar gyfer Budd-dal y Dreth Gyngor ac Ad-daliad Ail Oedolyn o'r cyngor.

Os oes gennych chi, neu rywun sy'n byw gyda chi, **anabledd**, efallai y gallwch gael cymorth i leihau eich bil y dreth gyngor.

Os ydych yn **ofalwr** llawn amser neu fod gan rywun yn eich cartref **nam meddyliol** difrifol, mae'n bosib y cewch ddisgownt. Gall nam meddyliol difrifol gynnwys Alzheimer's ac anableddau dysgu difrifol.

Os yw eich cartref wedi cael ei addasu ar gyfer person sydd ag anabledd, efallai y cewch **ostyngiad anabledd**. Gall y person sydd â'r anabledd fod yn unrhyw un sy'n byw yn eich cartref. Nid oes rhaid iddo fod y person sy'n talu'r dreth gyngor.

Gofynnwch i'ch cyngor am ffurflen gais am ddisgownt ar gyfer gofalwr neu berson sydd â nam meddyliol difrifol, neu ostyngiad anabledd. Gallwch ofyn amdanynt i gyd os ydynt yn berthnasol i'ch sefyllfa chi.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n talu

Os ydych yn methu â thalu eich ôl-ddyledion y dreth gyngor, neu ddod i drefniant gyda'r cyngor, gall eich cyngor wneud cais i'r llys ynadon lleol am orchymyn atebolrwydd. Gorchymyn llys yw hwn sy'n dweud bod yn rhaid i chi dalu'r holl dreth gyngor sy'n ddyledus am y flwyddyn honno, nid yr ôl-ddyledion yn unig. Mae'r gorchymyn atebolrwydd yn caniatáu'r cyngor i gymryd camau yn eich erbyn i'ch gorfodi i dalu.

Os ydych chi a rhywun arall yn gyfrifol am y dreth gyngor, gall y cyngor ofyn i chi dalu'r swm cyfan yn ôl.

Bydd **gŵys** yn cael ei anfon atoch. Dogfen o'r llys ydyw sy'n dweud wrthych faint sy'n ddyledus a dyddiad ac amser y gwrandawiad pan fydd y llys yn ystyried p'un ai y dylent wneud gorchymyn atebolrwydd. Gall y cyngor ychwanegu costau at y swm sy'n ddyledus i dalu am y gorchymyn atebolrwydd.

Dylech gysylltu â'r cyngor a cheisio gwneud trefniadau i dalu'r ddyled cyn y gwrandawiad. Ni fyddwch yn gallu gwneud hyn yn ystod y gwrandawiad. Efallai y bydd y cyngor yn cytuno i chi dalu'r ddyled mewn rhandaliadau os na allwch ei thalu i gyd yn syth. Os ydych yn cytuno i dalu, efallai y bydd y cyngor yn barod i **ganslo'r gŵys** neu ganslo (hepgor) costau'r llys ar yr amod eich bod yn cadw at y trefniant.

Os nad ydych yn cytuno bod arnoch yr arian ar y dreth gyngor, er enghraifft am eu bod wedi codi tâl arnoch am gyfnod pan nad oeddech yn byw yn y cyfeiriad, dywedwch wrth y cyngor yn syth. Os ydynt yn cytuno, ni fydd yn rhaid i chi fynd i'r llys. Os nad ydynt yn cytuno neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'r cyngor, bydd angen i chi fynd i'r gwrandawiad ar yr amser a nodwyd yn y gŵys.

Beth sy'n digwydd yn y gwrandawiad gorchymyn atebolrwydd

Yn ystod y gwrandawiad gorchymyn atebolrwydd, bydd y llys yn penderfynu p'un ai mai chi yw'r person sy'n gyfrifol am dalu'r dreth gyngor a gwneud gorchymyn atebolrwydd.

Os ydych yn cytuno mai chi yw'r person sy'n gyfrifol am dalu'r dreth gyngor, nid oes angen i chi fynd i'r gwrandawiad.

Os nad ydych yn cytuno mai chi sy'n gyfrifol am y dreth gyngor, dylech fynd i'r gwrandawiad a cheisio profi hyn i'r llys. Bydd angen i chi ddod â thystiolaeth, er enghraifft, bil sy'n dangos eich enw a'ch cyfeiriad. Os yw'r llys yn cytuno nad oes arnoch yr arian ar y dreth gyngor, ni fyddant yn gwneud gorchymyn atebolrwydd.

Os yw gorchymyn atebolrwydd yn cael ei wneud, gall y cyngor:

- ofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau i dynnu arian o'ch budd-daliadau, neu
- ddweud wrth eich cyflogwr i dynnu arian o'ch cyflog (**gorchymyn atodiad cyflog**), neu
- anfon **beilïaid** i'ch cartref i gymryd eich eiddo, neu
- eich datgan yn **fethdalwr** (os oes £750 neu fwy yn ddyledus gennych) neu

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- geisio am **orchymyn talu** (os oes £1000 neu fwy yn ddyledus gennych). Mae gorchymyn talu yn rhoi'r gallu i'r cyngor eich gorfodi i werthu eich eiddo a thalu'r ddyled gyda'r arian sy'n weddill ar ôl ad-dalu'r morgais. Nid yw hyn yn digwydd yn aml. Mynnwch gyngor os yw hyn yn digwydd i chi.

Os nad yw un o'r uchod wedi gweithio, gall y cyngor wneud cais i'r llys am warant i'ch anfon i'r carchar (**gwarant draddodi**). Bydd y cyngor yn gwneud hyn os yw'n credu bod gennych yr arian i dalu ond rydych yn gwrthod talu yn fwriadol, neu os nad ydych yn gwneud ymdrech i dalu.

Bydd gŵys arall yn cael ei anfon atoch a elwir **gŵys draddodi**. Dylech fynd i'r gwrandawiad llys y tro hwn. Os nad ydych yn gwneud, gallech gael eich arestio. Os na allwch fynychu'r gwrandawiad llys am unrhyw reswm, cysylltwch â'r cyngor er mwyn trefnu amser arall. Ceisiwch ddod i drefniant y gallwch ei fforddio gyda'r cyngor o flaen llaw. Gall y cyngor ychwanegu costau ychwanegol at eich dyled i dalu am y gŵys a'r gwrandawiad.

Beth sy'n digwydd yn y gwrandawiad traddodi

Yn ystod y gwrandawiad traddodi, mae'n rhaid i'r llys edrych yn fanwl ar eich sefyllfa ariannol i weld os allwch dalu. Gelwir hyn yn **ymholiad modd**. Dywedwch wrth y llys am unrhyw resymau arbennig pam nad ydych wedi talu, er enghraifft, gostyngiad mewn incwm neu newidiadau o fewn eich teulu. Bydd hyn yn eu helpu i benderfynu pa orchymyn i'w roi. Os oes gennych anawsterau ariannol neu os nad ydych yn gallu talu oherwydd rhesymau eraill, gofynnwch i'r llys **ddileu'r** ddyled i gyd neu ran ohoni.

Os gall y cyngor ddangos eich bod wedi gwrthod neu heb wneud ymdrech i dalu, gallai'r llys eich anfon i'r carchar. Fel arfer byddant yn gwneud gorchymyn a fydd yn gohirio'r warant i'ch anfon i'r carchar, cyn belled â'ch bod yn talu'r ddyled mewn rhandaliadau rheolaidd.

Gallwch ofyn i rywun fynd gyda chi i'r gwrandawiad llys os oes angen help arnoch i esbonio eich sefyllfa. Nid oes yn rhaid i'r llys ganiatáu'r person arall i siarad ar eich rhan, heblaw mai cyfreithiwr ydyw. Efallai y byddwch yn gymwys am gymorth i dalu cyfreithiwr o dan Gymorth Cyfreithiol, neu efallai y gallwch siarad â'r cyfreithiwr ar ddyletswydd pan ydych yno.

Ar ôl gwneud y gorchymyn traddodi

Ar ôl y gwrandawiad traddodi, sicrhewch eich bod yn deall yr hyn mae'n rhaid i chi ei dalu a phryd. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i swyddog y cyngor am esboniad. Mae'n rhaid i chi dalu'r taliadau tan fod y ddyled wedi cael ei chlirio. Os yw eich amgylchiadau yn newid neu os nad ydych yn gallu talu, cysylltwch â'r cyngor yn syth er mwyn dod i drefniant arall. Fel arall, gallent eich arestio a'ch gorfodi i ddychwelyd i'r llys i ddweud pam nad ydych wedi talu.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Treth Gyngor
- Cymorth gyda dyled
- Cymorth gyda'ch treth gyngor – Budd-dal y Dreth Gyngor
- Ôl-ddyledion rhent
- Beiliaid
- Cymorth gyda chostau cyfreithiol
- Sut i ddelio â phroblemau gyda'ch morgais

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 4 Gorffennaf 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr